Capel y Tabernacl **Ionawr 28ain, 2018**

Mae oedfa bore 'ma dan ofal y Parchg. Gethin Rhys a Rhiannon Humphreys. Rhiannon sydd wrth yr organ/piano hefyd..... gall bore 'ma fod yn ddiddorol. John a Judith Thomas oedd yn croesawu. Croeso cynnes i ymwelwyr a hen ffrindiau.

Y Suliau nesaf.....

Chwefror 4ydd – Oedfa pentrefi Tonteg a Phentre'r Eglwys. Gwenfil yn croesawu, Bethan yn cyfeilio

Chwefror 11eg – Emlyn Davies, gyda Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu ac Eirian a Keith yn croesawu, Eleri yn cyfeilio

Chwefror 18eg – Sul i'r Teulu. Carey a Loreen y croesawu. Bethan yn cyfeilio

Chwefror 25ain – y Parchg. Gethin Rhys gyda Carol Williams yn llywyddu, Sian yn cyfeilio

Mawrth 4ydd - Pentref Creigiau, Bethan yn cyfeilio

Mawrth 11eg – Y Parchg. Aled Edwards

Amdani yn 2018!
Os nad ydych yn aelod o'r eglwys, ac yr hoffech ddangos eich cefnogaeth wrth ddod yn aelod, mynnwch air gydag Eirian Rees neu gyda Gwilym yr ysgrifennydd.

Cofiwch am wybodaeth, ewch at y wefan, www.tabernacl.org
neu Gwilym Huws: 07710 237327
gehpengwern@yahoo.co.uk/
Cofiwch Facebook newydd Tabernacl
Efail Isaf a gyrrwch eich cyhoeddiadau at
geraintrees@hotmail.com

Cydymdeimlo

Daeth y newyddion am farwolaeth Dai (D.J.) Davies, Tonyrefail fu'n gefnogwr brwd i'n capel tra bu'n ddigon iach i ddod lawr ar y Sul, yn y blynyddoedd wedi cau ei gapel yn y Ton. Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu.

Llongyfarchiadau mawr i Lowri Leeke ar enedigaeth Ffion Lois.

Cofiwch y gallwch adael eitemau i'r cartref, dillad a theganau i Adref yn llofft y capel. Diolch

CYLCH CADWGAN
Nos Wener 9 Chwefror am 8.00pm
ALED ISLWYN
yn siarad ar y testun
'Tair afon – Un dinas'
yn Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth

Merched y Tabernacl
Bore Mawrth, Chwefror 6
Cwrdd yn yr Hen Lyfrgell am 11.30 am baned a chlonc cyn mynd i Neuadd Dewi Sant erbyn 1 o'r gloch i glywed Sinfonia Cymru.

Côr Caerdydd a Chôr y Penrhyn, Salem Canton, 02.02.2018 Tocynnau gan Colin Williams £10/£5